

Archwilio Ein Byd

Teithiau

Un o lyfrau Aled a Sian



Archwilio Ein Byd

Teithiau

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwranddo ar storïau eu ffrindiau ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Ein Byd* yw:

Plant 3 – 5 oed
Dathliadau
Fi fy hun ac Eraill
Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed
Teithiau
Pobl Arbennig
Arwyddion a Symbolau





Mae Aled a Siân yn dweud wrth eu ffrindiau am eu diwrnod arbennig yn ymweld â Llangollen yng Ngogledd Cymru.




Fe wnaethon nhw weld yr hen orsaf reilffordd, ac anadlu arogleuon y stêm a'r mwg.



Fe wnaethon nhw siarad gyda'r orsaf-feistr, a ddywedodd hanes yr orsaf a'r injan stêm wrthyn nhw.



Fe aethon nhw i mewn i un o'r hen gerbydau, a chleician mynd ar hyd y trac dros y draphont.




Mae Aled a Siân yn llawn cyffro ynghylch eu hymweliad arbennig. Nawr, maen nhw eisiau clywed hanes eu ffrindiau hefyd.



Mae Peter a Mary'n dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig, un dydd Sul yn niwedd mis Tachwedd, yn ymweld ag eglwys gadeiriol. Mae eglwys gadeiriol yn ganolfan pererindod Gristnogol.



Yno, fe wnaethon nhw gyfarfod yr esgob. Fe aeth yr esgob â nhw at greirfa Dewi Sant, nawddsant Cymru.



Yno, fe wnaethon nhw glywed yr hanes sut daeth y sant duwiol â'r ffydd Gristnogol i Orllewin Cymru.




Ac yna, fel roedd hi'n dechrau nosi, cafodd yr eglwys gadeiriol hynafol ei llenwi â golau canhwyllau, ac fe ganodd y côr garolau'r Adfent ar Sul Cyntaf yr Adfent.



Mae Nathan a Rachel yn dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig, un dydd Sadwrn, yn ymweld â synagog yn Ne Cymru. Canolfan addoli Iddewig yw synagog.



Yno, fe wnaethon nhw gyfarfod y rabi. Fe aeth y rabi â nhw i weld sgroliau'r Torah. Mae athrawiaethau roddodd Duw i'r proffwyd Moses wedi eu hysgrifennu ar y sgroliau.



Yno, fe wnaethon nhw glywed yr hanes sut daeth y teuluoedd cyntaf o Iddewon, a symudodd i Abertawe a Chaerdydd i weithio, â'r ffydd Iddewig i Dde Cymru.



Ac yna, fel roedd y gwasanaeth Shabbat yn dechrau, cafodd sgrôl Torah ei chario at y ddarllenfa ac fe ddarllenodd y rabi'n uchel i bawb ei glywed.




Mae Ahmed a Salma'n dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig, un dydd Gwener, yn ymweld â mosg yn Ne Cymru. Man dysgu a man addoli Mwslimaidd yw mosg.



Yno, fe wnaethon nhw gyfarfod yr imam. Fe aeth yr imam â nhw i weld y neuadd weddio, lle mae Mwslimiaid yn dod ynghyd i weddio.




Yno, fe wnaethon nhw glywed yr hanes sut daeth y morwyr oedd yn teithio rhwng Caerdydd a gwlad bell Yemen, â'r ffydd Fwslimaidd i Dde Cymru.



Ac yna, tua chanol dydd, fe alwodd llais ac fe arweiniodd yr imam y bobl mewn gweddi.



Mae Rajeev a Meena'n dweud wrth Aled a Siân am eu diwrnod arbennig yn ymweld â theml yng Ngorllewin Cymru. Mae'r deml yn ganolfan pererindod Hindwâidd.



Yno, fe wnaethon nhw gyfarfod mynach. Fe aeth y mynach â nhw i weld Teml Arglwydd Murugan, Duw sy'n cael ei addoli gan lawer o Hindwïaiaid yng ngwlad bell Sri Lanca.




Yno, fe wnaethon nhw glywed yr hanes sut daeth Guru Sri Subramanium â'r ffydd Hindwâidd i Orllewin Cymru.



Ac yna, fel roedd hi'n dechrau nosi, roedd cloch yn canu, roedd aroglarth yn llenwi'r awyr ac fe offrymodd y mynachod fwyd, dŵr a thân i Arglwydd Murugan.



Fe wnaeth Aled a Siân fwynhau gwrando ar eu ffrindiau Peter a Mary, Nathan a Rachel, Ahmed a Salma, a Rajeev a Meena.



Fe wnaethon nhw ddychmygu teithiau i. Fe wnaethon nhw ddychmygu teithio i'r eglwys gadeiriol, y synagog, y mosg, a'r deml.



Fe glywodd Aled a Siân sut mae crefyddau'r byd yn dylanwadu ar fywyd eu ffrindiau yng Nghymru.

Mae Aled a Siân yn archwilio teithiau arbennig ac maen nhw'n ymweld â hen orsaf reilffordd. Pan fyddan nhw'n dod yn ôl, mae Aled a Siân yn dweud yr hanes am eu diwrnod allan wrth eu ffrindiau, ac maen nhw'n gwranddo ar storïau eu ffrindiau hefyd. Wrth i'r storïau ddatblygu, mae Aled a Siân yn dechrau gweld sut mae crefyddau'r byd yn effeithio ar fywyd eu ffrindiau.



Bear Lands Publishing